# NEUADD GOFFA PENRHYNDEUDRAETH

England & Wales · Charity number 231804

## Details

| | |
|---|---|
| Other names | WAR MEMORIAL HALL, NEUADD GOFFA MEMORIAL HALL |
| Status | Registered |
| Legal form | Other |
| Registered | 1964-01-13 |
| Register | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| Address | Llwyn Hudol<br>Penrhyndeudraeth<br>Gwynedd<br>LL48 6AW |
| Phone | 01766770745 |
| Email | LLWYNHUDOL@BTINTERNET.COM |

## Activities

**Objects:** PUBLIC HALL OR READING ROOM AND LIBRARY TO BE USED FOR PUBLIC OR PRIVATE MEETINGS, LECTURES OR ENTERTAINMENTS FOR SOCIAL, RECREATIVE, EDUCATIONAL OR CHARITABLE PURPOSES FOR THE BENEFIT OF THE INHABITANTS OF THE PARISH.

**Activities:** Maintaining the Memorial Hall Building for the use of the residents and surrounding areas for various activities

## Classification

- **How:** Provides Buildings/facilities/open Space
- **What:** Education/training, The Advancement Of Health Or Saving Of Lives, Arts/culture/heritage/science, Amateur Sport, Economic/community Development/employment
- **Who:** Children/young People, Elderly/old People, Other Charities Or Voluntary Bodies, The General Public/mankind

Downloaded from opencharities.uk/ew/231804

## Geography

- **Area of benefit:** PARISH OF PENRHYNDEUDRAETH
- Gwynedd

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-03-31 | £23,730 | £12,991 | - | - |
| 2024-03-31 | £35,295 | £31,923 | - | - |
| 2023-03-31 | £25,336 | £15,432 | - | - |
| 2022-03-31 | £20,752 | £26,917 | - | - |
| 2021-03-31 | £36,731 | £17,552 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| DAVID MORRIS JONES | | |
| Meinir Lloyd Jones | | 2014-07-02 |
| Meryl Roberts | | 2019-06-23 |
| Morwen Pritchard | | 2014-07-12 |
| NEFINA PARRI | | |
| Richard Ashley Wayne Jones | | 2024-06-27 |
| Sarah Lousie Roberts | | 2024-06-29 |
| William Morris Phillips | | 2014-03-12 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/231804

# Accounts

# ADR0DDIAD Y CADEIRYDD
# DYDD IAU, MEHEFIN 27ain, 2024

Noswaith dda i chi i gyd a chroeso i gyfarfod blynyddol Neuadd Goffa, Penrhyndeudraeth.
Mae'n bleser cael adrodd bod y Neuadd yn brysur dros ben, yn wir yn llawer iawn prysurach nag y bu ers rhai blynyddoedd. Mae mwy a mwy o geisiadau yn dod i law parthed llogi yr ystafelloedd yn y Neuadd ac fel canlyniad, mae ein sefyllfa ariannol yn bur llewyrchus. Bu derbyn grantiau yn ystod cyfnod y Covid yn gymorth mawr i ni ac yn ddiweddarach, grantiau gan y National Grid a Rebecca.
Oherwydd y prysurdeb yn y Neuadd, penderfynwyd cyflogi person arall i gynorthwyo Chris Williams gyda'r glanhau a gofalu. Mae Chris wrth ei waith ar ddydd Llun ac mae Des Jones yma ar ddydd Iau. Mae'r trefniant yma i weld yn gweithio yn dda i sicrhau bod y Neuadd mewn cyflwr glan a derbyniol ar gyfer y defnyddwyr o un pen i'r wythnos i'r llall. Yn ogystal, anfonwyd llythyr ynghyd a rhestr o delerau ac amodau at bawb sy'n gwneud defnydd o'r lle. Mae'r gwair yn cael ei dorri a'r ffenestri yn cael eu glanhau yn rheolaidd. Mae'r goleuadau, y larymau a'r offer atal tân yn cael eu profi a'r offer trydanol yn cael profion PAT yn flynyddol.
Mae'r sefyllfa gadarnhaol yma yn bodoli hefyd oherwydd bod yma bwyllgor rheoli o ymddiriedolwyr gweithgar, ymroddgar a dibynadwy,sy'n rhoi eu hamser yn ddiflino tuag at rediad effeithiol a threfnus y sefydliad a phawb yn gwneud hynny yn wirfoddol. Diolch amdanynt.

Fel y gwyddoch, mae'r neuadd yn 100 oed y flwyddyn nesaf. Mae'r adeilad yn mynd yn hŷn a rhaid sicrhau bod gennym arian wrth gefn i'w chynnal a'i chadw fel ei fod yn ffynnu am flynyddoedd i ddod. Mae'n adnodd gwerthfawr yn y gymuned, gyda llawer un yn ei chanmol pan maent yn dod yma am y tro cyntaf.

Dyma a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gynnal, cadw ac uwchraddio yr adeilad.

Paentio yr ystafell gefn a gosod ffenestri newydd yna.

Plastro a phaentio y ddau allanfa dân a phaento y waliau yn y fynedfa i'r ystafell gefn.

Carped newydd yn yr ystafell gefn a gorchudd ar lawr y gegin fach.

Tynnu yr hen 'boiler'o'r gegin fach gefn.

Trwsio yr urinals yn nhoiledau y dynion.

Sychwyr dwylo newydd yn y toiledau.

Gwresogydd arall yn Ystafell Sbardun.

Ffens newydd ar hyd yr ochr chwith y tu allan i'r Neuadd.

Landeri newydd ar yr adeilad.

Goleuadau argyfwng ychwanegol.

System sain newydd.

Glanhawr carped shark.

Teimlaf yn sicr mai gwaith diflino a threfnus yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am ffyniant y Neuadd. Mawr yw fy niolch i chi am eich ymroddiad ac am roi cymaint o'ch amser yn wirfoddol i Neuadd Goffa, Penrhyndeudraeth.

Diolch o galon!!

Morwen Pritchard

Cadeirydd.

Morwen Pritchard

NEUADD GOFFA PENRHYNDEUDRAETH

Cyfrifon blwyddyn diweddu 31 Mawrth 2024

| | | £ | £ |
|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | |
| Rhoddion | | 13616.00 | |
| Llogi y neuadd | | 20900.00 | |
| Llog banc | | 708.87 | |
| Manion | | 70.00 | 35294.87 |
| Yn y banc : 01/04/2023 | Cyfredol | 1975.98 | |
| | Cadw | 30915.64 | |
| | Sbardun | 5506.74 | |
| | | | 38398.36 |
| Cyfanswm | | | 73693.23 |
| **GWARIANT** | | | |
| Cyfleustodau | | 4405.77 | |
| Yswiriant | | 1548.28 | |
| Glanhau /Torri Gwair | | 955.51 | |
| System Sain | | 7047.16 | |
| Cost Audit | | 60.00 | |
| Snowdonia Fire and Protection | | 321.30 | |
| Costau Banc | | 111.48 | |
| CCTV | | 271.49 | |
| Carped | | 1544.00 | |
| Cynnal a chadw | | 15658.02 | 31923.01 |
| Costau Banc | | | |
| Yn y banc 01/04/2023 | Cyfredol | 2462.69 | |
| | Cadw | 37172.03 | |
| | Sbardun | £ 2,135.50 | 41770.22 |
| Cyfanswm | | | 73693.23 |

23. 6. 24

**Adroddiad archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr yr elusen Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth**

Rwy'n adrodd i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon elusen Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth (yr Elusen) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusennol yr Elusen, rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Rwy'n adrodd mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Elusen a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn yr holl gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145 (5) (b) o'r Ddeddf. .

**Datganiad yr arholwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy arholiad. Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw faterion o bwys wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'r arholiad sydd yn rhoi achos imi gredu mewn unrhyw ffordd berthnasol:

1) ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu mewn perthynas â'r Elusen fel sy'n ofynnol gan adran 130 o'r Ddeddf; neu

2) nid yw cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion hynny; neu

3) nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys sy'n ymwneud â ffurf a chynnwys cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi golwg wir a theg nad yw'n fater sy'n cael ei ystyried fel rhan o arholiad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw ato yn yr adroddiad hwn er mwyn galluogi cyrraedd dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

Llofnodwyd:

Enw: Maldwyn Jones

Cymhwyster proffesiynol perthnasol:  BSc (Anrh)  ACIB

Cyfeiriad: Manaros,  3 Holborn,  Stryd Fawr,  Nefyn,  Gwynedd  LL53 6HD

Dyddiad: 10 Chwefror 2025

# Accounts

# ADR0DDIAD Y CADEIRYDD
# DYDD IAU, MEHEFIN 27ain, 2024

Noswaith dda i chi i gyd a chroeso i gyfarfod blynyddol Neuadd Goffa, Penrhyndeudraeth.
Mae'n bleser cael adrodd bod y Neuadd yn brysur dros ben, yn wir yn llawer iawn prysurach nag y bu ers rhai blynyddoedd. Mae mwy a mwy o geisiadau yn dod i law parthed llogi yr ystafelloedd yn y Neuadd ac fel canlyniad, mae ein sefyllfa ariannol yn bur llewyrchus. Bu derbyn grantiau yn ystod cyfnod y Covid yn gymorth mawr i ni ac yn ddiweddarach, grantiau gan y National Grid a Rebecca.
Oherwydd y prysurdeb yn y Neuadd, penderfynwyd cyflogi person arall i gynorthwyo Chris Williams gyda'r glanhau a gofalu. Mae Chris wrth ei waith ar ddydd Llun ac mae Des Jones yma ar ddydd Iau. Mae'r trefniant yma i weld yn gweithio yn dda i sicrhau bod y Neuadd mewn cyflwr glan a derbyniol ar gyfer y defnyddwyr o un pen i'r wythnos i'r llall. Yn ogystal, anfonwyd llythyr ynghyd a rhestr o delerau ac amodau at bawb sy'n gwneud defnydd o'r lle. Mae'r gwair yn cael ei dorri a'r ffenestri yn cael eu glanhau yn rheolaidd. Mae'r goleuadau, y larymau a'r offer atal tân yn cael eu profi a'r offer trydanol yn cael profion PAT yn flynyddol. Mae'r sefyllfa gadarnhaol yma yn bodoli hefyd oherwydd bod yma bwyllgor rheoli o ymddiriedolwyr gweithgar, ymroddgar a dibynadwy,sy'n rhoi eu hamser yn ddiflino tuag at rediad effeithiol a threfnus y sefydliad a phawb yn gwneud hynny yn wirfoddol. Diolch amdanynt.

Fel y gwyddoch, mae'r neuadd yn 100 oed y flwyddyn nesaf. Mae'r adeilad yn mynd yn hŷn a rhaid sicrhau bod gennym arian wrth gefn i'w chynnal a'i chadw fel ei fod yn ffynnu am flynyddoedd i ddod. Mae'n adnodd gwerthfawr yn y gymuned, gyda llawer un yn ei chanmol pan maent yn dod yma am y tro cyntaf.
Dyma a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gynnal, cadw ac uwchraddio yr adeilad.
Paentio yr ystafell gefn a gosod ffenestri newydd yna.
Plastro a phaentio y ddau allanfa dân a phaento y waliau yn y fynedfa i'r ystafell gefn.
Carped newydd yn yr ystafell gefn a gorchudd ar lawr y gegin fach.
Tynnu yr hen 'boiler'o'r gegin fach gefn.
Trwsio yr urinals yn nhoiledau y dynion.
Sychwyr dwylo newydd yn y toiledau.
Gwresogydd arall yn Ystafell Sbardun.
Ffens newydd ar hyd yr ochr chwith y tu allan i'r Neuadd.
Landeri newydd ar yr adeilad.
Goleuadau argyfwng ychwanegol.
System sain newydd.
Glanhawr carped shark.

Teimlaf yn sicr mai gwaith diflino a threfnus yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am ffyniant y Neuadd. Mawr yw fy niolch i chi am eich ymroddiad ac am roi cymaint o'ch amser yn wirfoddol i Neuadd Goffa, Penrhyndeudraeth.
Diolch o galon!!

Morwen Pritchard
Cadeirydd.

Morwen Pritchard

## NEUADD GOFFA PENRHYNDEUDRAETH

Cyfrifon blwyddyn diweddu 31 Mawrth 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| **INCWM** | | £ | £ |
| Rhoddion | | 4846.82 | |
| Llogi y neuadd | | 17485.00 | |
| Apel Ukraine | | 2853.70 | |
| Llog banc | | 150.85 | 25336.37 |
| Yn y banc : 01/04/2022 | Cyfredol | 3447.23 | |
| | Cadw | 18425.80 | |
| | Sbardun | 4379.06 | |
| | Apel Ukraine | 2241.93 | 28494.02 |
| Cyfanswm | | | 53830.39 |
| **GWARIANT** | | | |
| Cyfleustodau | | 3500.16 | |
| Yswiriant | | 1339.68 | |
| Glanhau | | 337.60 | |
| Anrhegion Cyn Aelodau | | 105.00 | |
| Cost Audit | | 60.00 | |
| Snowdonia Fire and Protection | | 224.12 | |
| Arwyddion | | 400.80 | |
| Cynnal a chadw | | 4147.38 | |
| Apel Ukraine | | 5095.63 | |
| Teipio | | 35.00 | |
| Costau Banc | | 186.66 | 15432.03 |
| Yn y banc 01/04/2023 | Cyfredol | 1975.98 | |
| | Cadw | 30915.64 | |
| | Sbardun | 5506.74 | 38398.36 |
| Cyfanswm | | | 53830.39 |

16.5.23

**Adroddiad archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr yr elusen**
**Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth**

Rwy'n adrodd i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon elusen Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth (yr Elusen) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

## Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad

Fel ymddiriedolwyr elusennol yr Elusen, rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Rwy'n adrodd mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Elusen a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn yr holl gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145 (5) (b) o'r Ddeddf. .

## Datganiad yr arholwr annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy arholiad. Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw faterion o bwys wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'r arholiad sydd yn rhoi achos imi gredu mewn unrhyw ffordd berthnasol:

1) ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu mewn perthynas â'r Elusen fel sy'n ofynnol gan adran 130 o'r Ddeddf; neu

2) nid yw cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion hynny; neu

3) nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys sy'n ymwneud â ffurf a chynnwys cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi golwg wir a theg nad yw'n fater sy'n cael ei ystyried fel rhan o arholiad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw ato yn yr adroddiad hwn er mwyn galluogi cyrraedd dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

Llofnodwyd:

Enw: Maldwyn Jones

Cymhwyster proffesiynol perthnasol:  BSc (Anrh)  ACIB

Cyfeiriad: Manaros,  3 Holborn,  Stryd Fawr,  Nefyn,  Gwynedd  LL53 6HD

Dyddiad: 10 Chwefror 2025

# Accounts

## Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth

Rhif Cofrestru : 231804

Cyfeiriad : Meinir Jones, Llwyn Hudol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd  LL48 6AW

***Ymddiriedolwyr***

Diwygiwyd ar nos Iau, Medi 23ain, 2021 yng nghyfarfod blynyddol y Neuadd Goffa.

1. Robin Williams…cadeirydd
2. Morris Jones…..is-gadeirydd
3. MorwenPritchard..ysgrifennydd
4. Meinir Jones…trysorydd
5. Nefina Parri
6. Gwilym Phillips
7. Medwyn Williams
8. Ceri Jones
9. Marian Williams
10. Meryl Roberts
11. Carina Roberts
12. Lynwen Haf Lloyd Evans
13. Tegwen Parri
14. Sian Llywelyn

Wedi ymddiswyddo ar y noson hon:
Margaret Roberts
Nerys Roberts
Elisabeth Roberts
Donna Williams
Ymddiriedolwyr a adawodd oherwydd marwolaeth, gwaeledd neu am eu bod ddim wedi bod yn mynychu cyfarfodydd:
David Bussey
Gwenno Roberts
Jacqui Thomas
Ken Gruffydd

***Strwythur***

Mae yna bwyllgor sydd yn cyfarfod yn fisol a hwy yw'r Ymddiriedolwyr. Mae'r pwyllgor yn cynnwys cynrychiolaeth o'r holl Gymdeithasau sydd ym Mhenrhyndeudraeth. Yn naturiol mae Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifenyddes a Thrysorydd.

Mae gennym Is Bwyllgorau fel a ganlyn – Is Bwyllgor Cyllid; Is Bwyllgor Cynnal a Chadw; Is Bwyllgor Codi arian; Is Bwyllgor Iechyd a Diogelwch; Is Bwyllgor Defnyddwyr y Neuadd. Pan fydd yr Is Bwyllgorau hyn wedi

cyfarfod byddant yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor mawr, ac fe fyddwn yn gwneud penderfyniadau wedyn ar eu hargymellion.

## ***Amcanion, Gweithgareddau a Budd Cyhoeddus***

Mae adeilad y Neuadd Goffa, Penrhyndeudraeth yn hen adeilad ac yn adeilad pwysig a hanesyddol ym Mhenrhyndeudraeth. Rydym wedi gwario yn helaeth arno i ddod a'r adeilad yn gymwys i'r unfed ganrif ar hugain. Yn ogystal a hyn mae gwaith cynnal a chadw arno, ac fe'r ydym yn sicrhau fod hynny yn cael ei wneud hefyd fel bo'r galw ar angen. Nid oes adeilad o'r maint yma ym Mhenrhyndeudraeth i gynnal pethau. Mae y Neuadd Fawr, i'w llogi neu yr Ystafell gefn sydd yn llai o faint ac Ystafell lai arall. Mae gennym felly amrywiaith o lefydd i'w cynnig i'r gymuned.

Mae'r Neuadd yn cael ei defnyddio gan amryw o Gymdeithasau. Mae yna ddosbarth Karate wythnosol yn ogystal ag Yoga, Cadw yn Heini, "Slimmimg World" a Zumba. Mae yna amryw yn cynnal Te Parti plant yno. Mae Merched y Wawr a Sefydliad y Merched yn cynnal eu cyfarfodydd misol yno hefyd. Ceir clwb "Bridge" yno yn ogystal a Chlwb Deudraeth (clwb henoed) yn wythnosol.

Mae' Ysgol Gynradd leol yn gwneud defnydd helaeth ohonni i gynnal eu Cyngerddau ar wahanol adegau o'r flwyddyn.  Yn fisol mae y Cyngor Tref yn cyfarfod yno hefyd. Mae Capel Efengylwyr Y Fron yn cynnal Clwb Ti a Fi yn wythnosol, a thrwy yr Haf roeddynt yn cynnal eu gwasanaethau yno ar fore Sul gan ddefnyddio yr Ystafelloedd i gyd. Maent yn dal i ddefnyddio y Neuadd ar rai Suliau trwy gydol y flwyddyn.

Mae amryw byd o Gyngherddau rydym wedi eu trefnu wedi cael eu cynnal yno. Mae Cwmni Teledu wedi bod yno droeon yn ffilimio er enghraifft Cyngerdd olaf Tebot Piws am ddwy noson, Pawb a'i Farn ac aml i beth arall.

Mae Cwmni Derwen sydd yn goaflu am blant gydag anableddau yn defnyddio y Neuadd yn wythnosol hefyd.

## ***Adolygiad Ariannol***

Yn y flwyddyn ariannol ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 roedd incwm y Neuadd yn £36,731 gyda gwariant o £17,551. Roedd balans y cyfrif banc ar ddiwedd y cyfnod yma yn £34,658.

Wrth gwrs, bu i'r covid amharu'n sylweddol ar y gweithgareddau arferol a fyddai yn cymeryd lle yn y Neuadd.

Derbyniwyd grantiau a rhoddion yn ystod y cyfnod o £29,058.

Fe gofnododd yr archwilidd ariannol nad oedd ganddo unrhyw bryderon ac nad oedd wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw ato.

Nid oes gan y Neuadd bolisi cronfeydd wrth gefn ffurfiol.

***Ymddiriedolwr Ceidwad***

Ni does gan y Neuadd arian fel ymddiriedolwr ceidwad.

Arwyddwyd

| | |
|---|---|
| Meinir Jones | Morwen Pritchard |
| Trysorydd | Ysgrifennydd |
| Dyddiad : 11/10/21 | Dyddiad : 11/10/21 |

**Adroddiad archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr yr elusen Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth**

Rwy'n adrodd i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon elusen Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth (yr Elusen) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusennol yr Elusen, rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Rwy'n adrodd mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Elusen a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn yr holl gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145 (5) (b) o'r Ddeddf. .

**Datganiad yr arholwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy arholiad. Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw faterion o bwys wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'r arholiad sydd yn rhoi achos imi gredu mewn unrhyw ffordd berthnasol:

1) ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu mewn perthynas â'r Elusen fel sy'n ofynnol gan adran 130 o'r Ddeddf; neu

2) nid yw cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion hynny; neu

3) nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys sy'n ymwneud â ffurf a chynnwys cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi golwg wir a theg nad yw'n fater sy'n cael ei ystyried fel rhan o arholiad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw ato yn yr adroddiad hwn er mwyn galluogi cyrraedd dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

Llofnodwyd:

Enw: Maldwyn Jones

Cymhwyster proffesiynol perthnasol: BSc (Anrh) ACIB

Cyfeiriad: Manaros, 3 Holborn, Stryd Fawr, Nefyn, Gwynedd LL53 6HD

Dyddiad: 19 Mai 2021

**Neuadd Penrhyndeudraeth**
**Cyfrifon blwyddyn diweddu 31 Mawrth 21**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | £ | £ |
| Grantiau | | | 25000.00 | |
| Rhoddion | | | 4058.00 | |
| Llogi y neuadd | | | 2463.00 | |
| Llog banc | | | 6.19 | |
| Codi Arian | | | 451.50 | |
| Yswiriant | | | 4752.57 | 36731.26 |
| Yn y banc | 01/04/2020 | Cyfredol | 1075.91 | |
| | | Cadw | 11126.09 | |
| | | Sbardun | 3277.18 | 15479.18 |
| Cyfanswm | | | | 52210.44 |
| | | | | |
| **GWARIANT** | | | | |
| Cyfleustodau | | | 2837.06 | |
| Yswiriant | | | 1228.69 | |
| Gofalwraig | | | 2835.80 | |
| Ffioedd | | | 395.00 | |
| Cynnal a chadw | | | 1519.35 | |
| CCTV | | | 804.95 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adeiladau | | 7830.92 | |
| Rhoddion | | 70.00 | |
| Print Neuadd | | 30.00 | 17551.77 |
| Yn y banc 31/03/2021 | Cyfredol | 1596.64 | |
| | Cadw | 29683.49 | |
| | Sbardun | 3378.54 | 34658.67 |
| | | | 52210.44 |